

Polisi Amgylcheddol a Hybu Bioamrywiaeth Cyngor Cymuned Llandwrog

1 Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio tuag at nodau Lles y Dyfodol Deddf Cenedlaethau 2015, sy'n rhoi pwyslais ar ddiogelu'r amgylchedd, defnyddio adnoddau'n gynaliadwy a diogelu iechyd a ffyniant cenedlaethau i ddod.

O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae'n ddyletswydd ar bob Cyngor Tref a Chymuned (yn ogystal â Chynghorau Sir) i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau

2. Polisi y Cyngor

- yn cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac felly yn defnyddio ei adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur,
- yn anelu at ddod yn sefydliad carbon isel trwy reoli'n well ei adnoddau, dŵr ac ynni,
- integreiddio egwyddorion amgylcheddol a chynaliadwy i mewn gweithdrefnau gweithredol y Cyngor
- yn hyrwyddo yr arfer gorau ac yn ceisio gwella perfformiad yr amgylchedd lle bynnag y bo hynny'n ymarferol,
- yn dymuno cynnal ecosystemau sy'n gweithredu'n iach ac annog amgylchedd naturiol bioamrywiol yn y gymuned.

3.0 Mesurau Ymarferol

3.1 Gweinyddiaeth.

- Defnyddio cyn leied o ddeunyddiau a dileu neu newid arferion gwastrafflyd.
- Defnyddio deunyddiau wedi eu hail gylchu.
- Ail gylchu holl ddeunyddiau fel y bo'r modd rhesymol i wneud hynny.
- Cylchredeg dogfennau er lleihau copio.

3.2 Gwastraff o waith gytundebol.

- Ail gylchu gwastraff o waith cynnal hawliau tramwy a thir mynwentydd.
- Ail gylchu cynnwys biniau ysbwriel mynwentydd.
- Ceisio compostio gwastraff gwyrdd.

3.3 Dylanwad ar eraill.

- Rhoi'r gofyn i ymgeisydd am bolisi amgylcheddol fel amod o rodd pan mae'n uwch na dyweder £500.00
- Rhoi'r gofyn i ymgymerwr am bolisi amgylcheddol fel cymhwyster penodol wrth iddo gael ei ystyried am waith gytundebol.
- Ymateb i weithredoedd gwastrafflyd gan eraill.

3.4 Hyrwyddo cynnaladwyedd.

- Wrth lunio cynlluniau gwariant y cyngor.
- Pan mae aelodau'r cyngor yn cael eu penodi i'w gynrychioli ar gyrff a sefydliadau.

3.5 Rheoli Ynni, Dŵr a Gwastraff

O fewn cyfyngiadau cost ac ymarferoldeb, bydd y Cyngor yn:

- Defnyddio systemau monitro ynni a'r amgylchedd i nodi potensial arbedion ynni a dŵr. Byddai enghraifft yn cynnwys defnyddio mesuryddion deallus.
- Nodi a gweithredu cadwraeth ynni a dŵr cost-effeithiol mesurau.
- Cynnal gwiriadau safle rheolaidd i nodi arbedion gwastraff, dŵr ac ynni. Gallai enghreifftiau gynnwys gwirio blociau toiledau am dapiau neu adeiladau sy'n gollwng ar gyfer ffenestri nad ydynt yn cau'n effeithiol.
- Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir gan weithgareddau'r Cyngor gan gweithredu systemau lleihau gwastraff. Gallai enghreifftiau gynnwys defnyddio dulliau digidol i ddsbarthu papurau cyfarfod ac argraffu dwy ochr pan nad oes modd osgoi argraffu.
- Defnyddio yr holl lwybrau ailgylchu sydd ar gael i leihau gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

3.6 Caffael Amgylcheddol

O fewn cyfyngiadau cost ac ymarferoldeb, bydd y Cyngor yn:

- Prynu cynhyrchion a gwasanaethau, sy'n achosi'r niwed lleiaf i'r Amgylchedd.
- Defnyddiwch llafur a deunyddiau lleol lle bynnag y bo modd i leihau'r effaith amgylcheddol milltiroedd teithio
- Lleihau ei ddefnydd o blastigau un defnydd, fel gwellt yfed, plastig cwpanau, codenni lamineiddio ac ati.

3.7 Amgylchedd Adeiledig

O fewn cyfyngiadau cost ac ymarferoldeb, bydd y Cyngor yn:

- Gwella eiddo sy'n eiddo i'r cyngor neu'n cael eu cynnal a'u cadw er mwyn cynyddu thermol effeithlonrwydd. Enghreifftiau fyddai gwella inswleiddio'r to neu osod eilaidd gwydro.
- Atgyweirio ac uwchraddio gosodiadau a ffitiadau i wella dŵr ac ynni effeithlonrwydd a lleihau gwastraff. Gallai enghreifftiau fod yn addasu systemau defnyddio llai o ddŵr, atgyweirio tapiau diferu neu osod thermostatau ar reiddiaduron.
- Defnyddiwch ddeunyddiau adeiladu wedi'u hailgylchu neu eu hadennill lle bo hynny'n rhesymol i wneud hynny. Gallai enghreifftiau gynnwys defnyddio briciau neu drawstiau wedi'u hadfer wrth adeiladu prosiectau.
- Defnyddio deunyddiau a dulliau gweithio sy'n lleihau'r amgylchedd effaith gwelliannau i eiddo y Cyngor. Gallai enghreifftiau gynnwys dewis paent gyda llai o effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, gan sicrhau bod y gwaith adeiladu yn gweithio nad yw'n llygru cyrsiau dŵr, gan waredu gwastraff adeiladu mewn a ffordd gyfrifol.

4 Rheoli Mannau Gwyrdd a Hybu Bioamrywiaeth

O fewn cyfyngiadau cost ac ymarferoldeb, bydd y Cyngor yn:

- Gweithredu gweithdrefnau rheoli gerddi a thiroedd sy'n cefnogi a gwella bioamrywiaeth leol.
- Defnyddio blanhigion sy'n cael eu tyfu'n lleol ac sy'n frodorol i Gymru.
- Darparu amrywiaeth o blanhigion peillio mewn cynlluniau plannu.
- Amnewid unrhyw goeden aeddfed sydd angen cwmpo coed gydag o leiaf 2 goeden ifanc rhywle yn y gymuned.

- Gwahardd rhyddhau balŵn neu lansio llusernau Tsieineaidd oddi ar tiroedd y Cyngor.
- Cefnogi y gymuned i gynnal rhandiroedd
- Cefnogi newid yn trefniadau torri gwair. Canolbwyntio ar laswellt dolydd, hybu lle'n briodol peillwyr sydd yn un agwedd ar fio-amrywiaeth.
- Cydnabod fod glaswellt hirach yn dal mwy o garbon a thrwy beidio â thorri glaswellt mae'n gwella iechyd y pridd, gan fod yn dda ar gyfer bio-amrywiaeth ar yr un pryd.
- Rheoli glaswellt, er enghraifft, trwy beidio torri gwair o amgylch gwaelod coed er mwyn annog blodau gwyllt a phlanhigion eraill sy'n denu peillwyr, yn ogystal a darparu lloches ar gyfer mameiliaid ac ymlusgiaid bachamrediad o rywogaethau
- Creu ardaloedd bywyd gwyllt mewn mynwentydd I ddarparu manau ar gyfer nythu a bwrw'r gaeaf i annog
- Gosod blychau nythu yn ein tiroedd lle'n berthnasol
- Ystyried bioamrywiaeth wth ystyried ceisiadau cynllunio a materion cyslltiedig. Darparu ymatebion addasu a lliniaru effaeithiau newid yr hinsawdd
- Rhoi arweiniad a hybu egwyddorion hybu bioamrywiaeth i'r gymuned lle'n briodol y gallant fynd allan a gwneud eu penderfyniadau eu hunain
- Annog yr holl gymuned i wirfoddoli i gynnal mannau natur/gwyrdd
- Ystyried bioamrywiaeth pan yn ystyried rhoddion ariannol

Diwygiodd y Cyngor y Polisi a Datagniad Bioamrywiaeth hwn yng nghyfarfod y Cyngor ar 16 Rhagfyr 2019

Dyddiad Adolygu = bob 3 mlynedd

Dyddiad Diwygiedig neu Adolygiad Fersiwn

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Rheoli a Gwella Bioamrywiaeth o dan Adran 6

Cynllun 2022-2025

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Hybu Bioamrywiaeth ac i gydymffurfio ac Adran 6 o Ddeddf Amgylchedd Cymru 2016 rhaid i'r Cyngor reoli a gwella'r cyfleoedd i hyrwyddo bioamrywiaeth.

Dywed Adran 6 o Ddeddf Amgylchedd 2016 (Environmental Act 2016) fod rhaid diweddarau cynllun hybu bioamrywiaeth y Cyngor pob 3 blynedd

Yn unol â'r Ddeddf hon, mae'n rhaid i'r sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru (fel awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol, ac adrannau eraill) greu ac adolygu cynlluniau bioamrywiaeth er mwyn helpu i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth yn lleol a chenedlaethol. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu diwygio'n rheolaidd bob tair blynedd ac yn cynnwys mesurau ar gyfer gwella bioamrywiaeth a chymryd camau gweithredu i leihau'r effaith negyddol ar amgylchedd naturiol.

Er mwyn bod yn gyson â'r Ddeddf, mae'n rhaid sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu yn cyd-fynd â'r canllawiau a'r amcanion bioamrywiaeth ehangach a osodir ar lefel cenedlaethol, ac mae'r cynlluniau yn rhaid cael eu cynnal a'u monitro i sicrhau bod y mesurau'n effeithiol.

Yn ogystal, mae'n rhaid i'r cynllun hybu bioamrywiaeth gynnwys adroddiadau ac asesiadau o'r cynnydd ar gyfer cyflawni'r amcanion bioamrywiaeth, gan sicrhau bod yn rhaid eu diweddarau ac adolygu bob tair blynedd.

Hybu Bioamrywiaeth Cymuned Llandwrog

2023/24

Creu weirglodd yn Cae Pel-droed y Fron a plannu tua 215 o goed /gwrych brodorol yn cynnwys rhywogaethau ffrwytho sy'n dda i fywyd gwyllt fel: Cyll, Ysgawen, Afal cranc, ceirios gwyllt, draenen wen, sugno mêl. (Hazel, Elder, Crab apple, wild cherry, hawthorn, honey suckle). Plannwyd chlychau'r ar ymylon y cae a trefnwyd sesiwn pallnu plwg gyda gwirfoddolwyr yn y Ganolfan gan Cwmni Kehoe.

Mae criw o wirfoddolwyr yn y Fron yn cynnal y safle



2024/25

Sefydlu Fforwm Werdd (Gweithgor Bioamrywiaeth)

Sefydlwyd Fforwm Werdd gan y Cyngor i ymgysylltu gyda'r gymuned I Hybu Bioamrywiaeth yn y gymuned

Pwrpas y Gweithgor –

Bwriad y Gweithgor ydy, yn gyntaf cyfarfod a swyddog bioamrywiaeth y Cyngor Sir – Hywyn er mwyn clywed mwy am eu strategaeth ar gyfer cymuned Llandwrog, i weld a oes gyfleoedd i gydweithio ac i beidio gweithio yn erbyn unrhyw un o'i amcanion nhw. Yn ail, i gynnal digwyddiadau ymgysylltu i hel syniadau.

Bydd y gweithgor wedyn yn ailymgynull i ddioli a blaenoriaethu'r syniadau yma cyn adrodd yn ol i'r cyngor llawn. Caiff y cyngor llawn benderfynnu os oes angen i'r gweithgor barhau tu hwnt i'r cyfnod amlinellir isod.

Diffiniad Bioamrywiaeth - Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at yr amrywiaeth o ffurfiau bywyd a rhywogaethau o fewn ecosystem, rhanbarthol, cenedlaethol ac ehangach. Mae'n cwmpasu'r gwahanol rywogaethau o blanhigion, anifeiliaid, micro-organebau, a'r ecosystemau y maent yn eu ffurfio.

Partneriaid

Mae'r cynllun hwn yn creu cyfle i ymgysylltu a chydweithio gyda sawl mudiad, sefydliad a grwp o fewn yr ardal, e.e. Coleg Glynllifon, Cyfoeth naturiol Cymru, Rhandiroedd, Ty'n Llan, Canolfan Y Fron, Yr Orsaf, yr Ysgolion ac eraill. Yn ogystal ag adrannau o'r Cyngor Sir a grwpiau cenedlaethol sy'n arbenigo mewn cadwraeth natur i gael mynediad at adnoddau, arbenigedd ayyb

Cynhaliwyd cyfarfod ym mhob Pentref y gymuned – Fron, Careml, Groeslon a Llandwrog – Rhai syniadau a drafodwyd oedd

Crynodeb o'r Ymgynghoriad Bioamrywiaeth Cymunedol 2024

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori ym mhentrefi Llandwrog, Groeslon a'r Fron yn ystod misoedd Mai i Orffennaf 2024 i gasglu syniadau gan drigolion ar sut i hybu bioamrywiaeth yn y gymuned. Mynychwyd y cyfarfodydd gan gyfanswm o 26 o drigolion.

Daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg ar draws y pentrefi. Roedd consensws cryf ar bwysigrwydd adnabod a chofnodi'r cyfoeth naturiol sydd eisoes yn bodoli yn y gymuned, yn ogystal â chynnwys ysgolion, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau amgylcheddol.

Ymhlith y prif syniadau a drafodwyd roedd:

- Sefydlu banc hadau gwyllt cymunedol i hyrwyddo rhywogaethau brodorol a chefnogi peillwyr.
- Creu a datblygu dolydd blodau gwyllt a manau natur mewn gwahanol rannau o'r gymuned.
- Plannu coed newydd a sicrhau bod coed a gollwyd yn cael eu hamnewid.
- Cefnogi bywyd gwyllt drwy osod blychau nythu ac adeiladu blychau tylluanod.
- Trefnu gweithgareddau cymunedol i gynnal llwybrau cyhoeddus a chodi ysbwriel.
- Datblygu gwybodaeth a sgiliau lleol drwy ddarparu hyfforddiant ar reoli rhywogaethau ymledol megis Balsam Himalaya a Chlymog Japan.
- Cynnal gweithgareddau addysgol a theithiau natur i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau lleol, gan gynnwys adar ac ystlumod.

Roedd cefnogaeth hefyd i ddatblygu prosiectau cymunedol presennol megis gerddi llyisiau, rhandiroedd, perllannau a phrosiectau dehongli treftadaeth naturiol y pentrefi.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, daeth y Fforwm Werdd i'r casgliad mai'r blaenoriaethau mwyaf ymarferol fyddai:

1. Sefydlu banc hadau gwyllt cymunedol.
2. Darparu hyfforddiant ar fapio a rheoli rhywogaethau ymledol.
3. Cefnogi prosiectau i warchod ac annog bywyd gwyllt, gan gynnwys adeiladu blychau tylluanod.

Mae'r ymatebion yn dangos lefel uchel o gefnogaeth gymunedol i weithredu ar faterion bioamrywiaeth ac yn darparu sail gadarn ar gyfer datblygu prosiectau amgylcheddol yn y dyfodol.

Beth cyflawnwyd yn 2025/26?

Sefydlwyd Perllan Gymunedol yn Carmel trwy grant Natur Lleol Cyngor Gwynedd. Mae criw o wirfoddolwyr yn cynnal y safle. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo cyllid parhaol o £500 i gynnal y safle yngyd ac yswiriant Public Liability.



Planters yn Pentref Groeslon – mae'r Cyngor wedi chew noddi planters yn Pentref Groeslon trwy gyd weithio gyda criw o wirfoddolwyr



Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2026-2028

Dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cyflwyniad

Mae Cyngor Cymuned Llandwrog yn cydnabod ei ddyletswydd o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau y bwriedir eu cymryd yn ystod y cyfnod 2026/27 i 2028/29 er mwyn cyfrannu at amcanion bioamrywiaeth lleol a chenedlaethol.

Er mwyn cefnogi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Cyngor Cymuned Llandwrog wedi ymrwymo i gynnwys darpariaeth flynyddol o £800 yn ei gyllideb. Bydd y cyllid hwn yn cyfrannu at weithgareddau a phrosiectau sy'n hybu bioamrywiaeth, gwella cynefinoedd naturiol, cefnogi grwpiau gwirfoddol lleol, a datblygu mentrau amgylcheddol o fewn y gymuned.

Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i geisio manteisio ar gyfleoedd ariannu allanol a grantiau sy'n cefnogi bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol wrth iddynt ddod yn hysbys. Lle bo'n briodol, bydd y Cyngor yn cyflwyno ceisiadau am gyllid er mwyn galluogi prosiectau ychwanegol megis plannu coed, creu cynefinoedd newydd, datblygu perllannau cymunedol, a chefnogi mentrau gwirfoddol sy'n cyfrannu at wella bioamrywiaeth yn yr ardal.

Amcanion

Bydd y Cyngor yn gweithio i:

- Diogelu a gwella cynefinoedd naturiol.
- Cynyddu cyfleoedd i fywyd gwylt ffynnu.
- Hyrwyddo plannu coed a pherllannau cymunedol.
- Annog cyfranogiad cymunedol mewn gweithgareddau amgylcheddol.
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth a newid hinsawdd.

Gweithgareddau Arfaethedig 2025/26 – 2027/28

1. Cefnogi Grwpiau Gwirfoddol a'r Fforwm Werdd

Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi grwpiau gwirfoddol lleol sy'n gweithio i wella'r amgylchedd naturiol. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi gweithgareddau a phrosiectau a nodwyd yng nghyfarfodydd y Fforwm Werdd, gan gynnwys prosiectau plannu, gwella cynefinoedd a gweithgareddau addysgol.

2. Datblygu'r Berllan Gymunedol yn Carmel

Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu'r berllan gymunedol yn Carmel drwy:

- Osod blychau nythu ar gyfer adar a rhywogaethau eraill.
- Plannu coed ffrwythau ychwanegol lle bo'n briodol.
- Monitro a chynnal y safle i sicrhau ei fod yn darparu buddion i natur a'r gymuned.

3. Ymgysylltu â'r Gymuned

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda trigolion, ysgolion, grwpiau lleol a rhanddeiliaid eraill i:

- Gasglu syniadau ar gyfer gwella bioamrywiaeth.
- Adnabod safleoedd addas ar gyfer ardaloedd bywyd gwyllt.
- Archwilio cyfleoedd i greu perllannau cymunedol newydd.
- Hyrwyddo cyfranogiad cymunedol mewn prosiectau natur.

4. Cefnogi Gweithgareddau Codi Ysbwriel a Thacluso

Bydd y Cyngor yn:

- Cefnogi grwpiau gwirfoddol sy'n cynnal sesiynau codi ysbwriel.
- Hyrwyddo digwyddiadau glanhau cymunedol.
- Annog mwy o bobl leol i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gwella ymddangosiad ac iechyd yr amgylchedd lleol.

5. Adnabod a Datblygu Safleoedd Natur

Bydd y Cyngor yn:

- Adolygu tir a manau agored o fewn y gymuned i adnabod safleoedd addas ar gyfer gwella bioamrywiaeth.
- Archwilio cyfleoedd i sefydlu perllannau cymunedol newydd.
- Creu ardaloedd sy'n ffafriol i beillwyr a bywyd gwyllt lle bo hynny'n briodol.
- Manteisio ar gyfleoedd ariannu a grantiau, gan gynnwys rhaglen Natur Lleol Cyngor Gwynedd a chynlluniau perthnasol eraill.

Monitro ac Adolygu

Bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn y gweithgareddau a nodir yn y cynllun hwn a bydd adroddiad cynnydd yn cael ei baratoi fel rhan o'r trefniadau adrodd statudol o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn effeithiol wrth ymateb i anghenion bioamrywiaeth y gymuned.

Mabwysiadwyd gan y Cyngor 15 Mai 2026